“Y Cytundeb Cenedlaethol – Saith Mlynedd Ymlaen”

Datganiad gan Bartneriaeth Gymdeithasol Grŵp Monitro Cytundeb y Gweithlu

Nododd 15 Ionawr 2010 seithfed pen-blwydd arwyddo’r Cytundeb Cenedlaethol hanesyddol ar ddiwygio gweithlu ysgolion – ‘Codi Safonau a Mynd i’r Afael â Llwyth Gwaith.’ A saith mlynedd yn ddiweddarach mae Grŵp Monitro Cytundeb y Gweithlu (WAMG) – partneriaeth gymdeithasol unigryw yn cynnwys undebau, cyflogwyr a Llywodraethau – yn dal yn gwbl ymrwymedig i sicrhau mwy o degwch i bawb sy’n gweithio mewn ysgolion: staff cymorth, athrawon, penaethiaid ac, yn bwysicaf oll, disgyblion.

Ganwyd WAMG allan o argyhoeddiad a rennid rhwng Llywodraethau, Cyflogwyr ac Undebau fod gweithlu’r ysgolion yn hanfodol i godi safonau a bod angen dull newydd a chynaliadwy o weithio mewn ysgolion os oeddem yn mynd i sicrhau’r cyfleoedd a’r canlyniadau addysgol gorau posibl i blant a phobl ifanc.

Y weledigaeth a rennid oedd gweithlu wedi ei ail-fodelu, lle mae gan athrawon a phenaethiaid, sy’n gweithio fel rhan o dîm addysg gyda staff cymorth cymwysedig, amodau gwasanaeth sy’n eu galluogi i ganolbwyntio ar eu cyfrifoldebau craidd o addysgu ac arwain a rheoli addysgu a dysgu.

Yr unig ffordd y gellir bodloni anghenion y system addysg sy’n newid yn barhaus yw drwy weithlu plant mewn ysgolion sy’n esblygu’n barhaus drwy broses o ailfodelu, gan ddatblygu ar y diwygiadau i’r gweithlu a weithredwyd dros nifer o flynyddoedd, yn dilyn arwyddo’r Cytundeb Cenedlaethol yn 2003.

Argyhoeddiad WAMG yw bod y broses a’r egwyddorion o ailfodelu, a’r newid diwylliant dwfn y mae hyn yn ei hyrwyddo mewn ysgolion, yn angenrheidiol ar gyfer codi safonau ymhellach ac ar gyfer datblygu gallu ysgolion i ymateb yn effeithiol i gynlluniau’r Llywodraeth i godi safonau a sicrhau bod ysgolion yn barod ar gyfer heriau’r unfed ganrif ar hugain.

Ers 2003, mae WAMG wedi bod wrth galon diwygiadau i weithlu’r ysgolion gan gynnwys ail-fodelu, newidiadau i strwythur cyflog athrawon, adolygu strwythurau staffio ysgolion cyfan ac yn Lloegr, diwygiadau i’r modd y rheolir perfformiad athrawon a safonau proffesiynol newydd.

Mae’r egwyddorion y mae WAMG yn eu dilyn yn cynnwys:

- ⇨ Mae aelodaeth o WAMG yn ymrwymiad parhaus;
- ⇨ Mae WAMG yn gweithio drwy gonsensws;
- ⇨ Unwaith y llunnir cytundeb, cefnogi a hyrwyddo’r safiad a gytunwyd a chydweithio i’w weithredu;
- ⇨ Rhoi ystyriaeth adeiladol i’r holl syniadau neu faterion a drafodwyd a gweithio i ddod o hyd i atebion.

Ar ben-blwydd y cytundeb, meddai John Dunford o ASCL:

> ***"Mae ASCL wedi bod yn gefnogwr cryf o'r broses o ddiwygio'r gweithlu yng Nghymru a Lloegr dros y 7 mlynedd ddiwethaf. Gyda'r nifer cynyddol o gyfrifoldebau a gymerir gan ysgolion, mae ystod eang o rolau staff bellach yn nodwedd hanfodol o wasanaeth effeithiol. Mae'r diwygiadau wedi helpu arweinwyr ysgolion i ganolbwyntio yn fwy uniongyrchol ar y tasgau craidd o addysgu a dysgu, gyda chyfraniad mawr at hyn yn dod oddi wrth y nifer cynyddol o reolwyr busnes ac uwch staff cymorth eraill ar dimau arwain ysgolion."***

Ailbwysleisiodd Ed Balls, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd, bwysigrwydd diwygio'r gweithlu a rôl WAMG. Meddai:

> ***"Saith mlynedd yn ddiweddarach, mae gwaith yn y maes hwn yn parhau i wneud gwahaniaeth go iawn mewn ysgolion ac mae'r Llywodraeth yn dal wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda WAMG ar bob agwedd o bolisi'r Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd a chodi safonau a mynd i'r afael â llwyth gwaith."***
>
> ***"Mae WAMG yn parhau i fod yn rhanddeiliaid allweddol, ac maent yn ein helpu i ystyried a phrofi'r goblygiadau o ran y gweithlu a llwyth gwaith ar gyfer ystod o ddatblygiadau polisi. Maent hefyd yn rhoi cyfraniadau a chyngor gwerthfawr i swyddogion."***

Nododd Brian Strutton yn GMB:

> ***"Mae'r Cytundeb Cenedlaethol wedi gwneud proses uchelgeisiol o ailfodelu yn bosibl, proses sy'n trawsnewid yn llwyr y modd y mae ein hysgolion yn gweithio. Mae ysgolion, fwy nag erioed, yn defnyddio talentau ac ymroddiad gweithlu'r ysgol gyfan, gan dynnu sylw at y cyfraniad hanfodol a wneir gan bob un aelod o'r staff at amgylchedd dysgu diogel a llwyddiannus."***

Ychwanegodd Chris Keates o NASUWT:

> ***"Mae'r Cytundeb Cenedlaethol wedi bod yn ysgogydd pwysig ac unigryw ar gyfer newid diwylliannol yn y modd mae ysgolion yn gweithio."***
>
> ***"Mae'n gydnabyddiaeth amlwg i bwysigrwydd canolog y gweithlu o ran sicrhau'r safonau uchaf o addysg i bob plentyn ac yn galluogi'r gweithlu i wneud hyn drwy ddatblygu amodau gwasanaeth sy'n eu cydnabod ac yn eu gwobrwyo fel pobl broffesiynol hyfedr."***

Meddai Sarah Messenger, Ysgrifennydd y Cyflogwyr:

> **"Mae Sefydliad Cenedlaethol y Cyflogwyr ar gyfer Athrawon Ysgol yn cydnabod y cynorthwyir y gwaith o gyflawni canlyniadau sefydliadol llwyddiannus gan bolisïau a chytundebau cenedlaethol sy'n ei gwneud yn bosibl i weithredu tâl ac amodau gwaith priodol ac arferion cyflogaeth da ar lefel leol. Un o gyflawniadau mawr WAMG yw bod gennym, drwy'r Cytundeb Cenedlaethol, athrawon sy'n cael eu defnyddio yn fwy priodol ac sy'n gweithio mewn ffyrdd mwy cydweithredol nag erioed o'r blaen gyda'r nod o gyflawni safonau sy'n gwella o hyd o ran cyrhaeddiad y disgyblion. Drwy barhau â'r broses o ailfodelu rydym yn ceisio sicrhau bod gennym weithlu ysgol sy'n gallu hwyluso gwell canlyniadau o hyd i bobl ifanc yn ein hysgolion."**

ac meddai Leighton Andrews, Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, am y cyfraniad y mae'r Cytundeb Cenedlaethol wedi ei wneud i ddiwygio'r gweithlu yng Nghymru:

> ***"Mae'r polisïau a'r strategaethau a gyflwynir yn y 'Wlad sy'n Dysgu' a rhaglen llywodraethu 'Cymru'n Un' yn gofyn am weithlu sgilgar, amrywiol, hynod frwd sy'n gallu cyflenwi targedau uchelgeisiol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru."***
>
> ***"Mae'r Cytundeb Cenedlaethol wedi bod yn allweddol o ran creu'r amodau i alluogi athrawon a phenaethiaid i ganolbwyntio mwy ar bwrpas craidd addysgu a dysgu ac i ysgolion wneud defnydd effeithiol o'u staff cymorth sgilgar a phrofiadol."***

"Mae cyflenwi'r agenda heriol hwn yn adlewyrchu cryfder y gweithio mewn partneriaeth sydd wedi nodweddu gwaith WAMG. Edrychaf ymlaen at ddatblygu ymhellach ar y cyflawniadau hyn wrth inni barhau, mewn partneriaeth, i wella ein darpariaeth i ddysgwyr."

Y Cytundeb Cenedlaethol – beth a gyflawnwyd?

Mae'r gweithlu ysgolion yn cael ei drawsnewid – gan gryfhau ansawdd arweinyddiaeth ysgolion, arferion gwaith sy'n galluogi athrawon a phenaethiaid i ganolbwyntio ar eu rôl greiddiol o addysgu ac arwain a rheoli addysgu a dysgu, a chydnabod bod staff cymorth yn swyddogion proffesiynol cymwysedig o'u rhan eu hunain sy'n ymgymryd â rolau ychwanegol, o gynorthwywyr addysgu i fwrsariaid.

Mae'r Cytundeb Cenedlaethol wedi arwain at y canlynol:

Cyfres o newidiadau i gontract athrawon i alluogi athrawon a phenaethiaid i weithio'n fwy effeithiol i godi safonau. Mae'r newidiadau yn cynnwys:

- hawl i isafswm o 10 y cant o amser addysgu sydd wedi ei amserlennu ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu;
- amser i gyflawni cyfrifoldebau arweinyddiaeth a rheoli;
- rolau a arferai gael eu cyflawni gan athrawon bellach yn cael eu gwneud gan staff cymorth, e.e. swyddogion arholiadau, rheolwyr ymddygiad;
- hawl i benaethiaid gael amser wedi ei neilltuo ar gyfer gwaith pennaeth;
- disgwyliad mai anaml y bydd athrawon yn gorfod cyflenwi dros dro;
- nid oes angen i athrawon a phenaethiaid fel arfer bellach gyflawni tasgau gweinyddol neu glerigol, na goruchwylio arholiadau allanol;
- gofyniad i ysgolion roi ystyriaeth i gydbwysedd gwaith a bywyd athrawon.

Datblygu'r tîm addysg o amgylch y plentyn gan ychwanegu at rôl y staff cymorth drwy:

- Gyflwyno rolau newydd a gwell e.e. cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (CALU), Cynorthwywyr Addysgu (CA), Rheolwyr Busnes Ysgolion (RhBY), arolygwyr cyflenwi dros dro;
- cyfleoedd a dilyniant gyrfa (yn gysylltiedig â'r uchod) i staff cymorth;
- ymrwymiad newydd i sicrhau bod y staff i gyd yn cael eu rheoli yn unol â'u hawliau cytundebol; ac
- yn Lloegr, sefydlu corff cenedlaethol statudol i drafod telerau ar gyfer staff cymorth mewn ysgolion.

Yn ychwanegol at y newidiadau hyn, dros y saith mlynedd ddiwethaf mae WAMG hefyd wedi cefnogi datblygu a gweithredu ystod o ddarpariaethau eraill gan gynnwys:

- taliadau ar gyfer cyfrifoldebau addysgu a dysgu;
- safonau proffesiynol newydd ar gyfer athrawon (Lloegr);
- trefniadau diwygiedig ar gyfer rheoli perfformiad (Lloegr); a
- newidiadau i'r system tâl

Caiff y Grŵp Monitro Cytundeb y Gweithlu cenedlaethol ei adlewyrchu hefyd mewn partneriaethau

cymdeithasol lleol sy'n gweithio ar lefel leol. Mae ganddynt rôl hanfodol i'w chwarae drwy gynnig cymorth a her i weithredu'r diwygiadau i'r gweithlu sy'n cyd-fynd â rhaglen a blaenoriaethau Grŵp Monitro Cytundeb y Gweithlu ac sy'n ymatebol i'r sefyllfa leol.

Beth nesaf?

Gweithredwyd rhannau allweddol o'r agenda ailfodelu a diwygio bellach, gan gynnwys tri cham y newid cytundebol ar gyfer athrawon a phenaethiaid a gyflwynwyd yn y Cytundeb Cenedlaethol. Un o flaenoriaethau allweddol Grŵp Monitro Cytundeb y Gweithlu yw sicrhau bod staff ym mhob ysgol yn derbyn eu hawliau ac yn cynnal, yn ehangu ac yn dyfnhau'r newid hwn.

Mae gan bolisïau diweddar y llywodraeth yng Nghymru a Lloegr oblygiadau sylweddol i'r gweithlu a byddant yn helpu i ddatblygu'r agenda o ran diwygio'r gweithlu ymhellach mewn ysgolion. O fewn y cyd-destun hwn mae cyfraniad y gweithlu, sy'n gweithio fel tîm o amgylch y plentyn, yn ganolog i lwyddiant y diwygiadau. (WAMG nodyn 25)

Mae blaenoriaethau a gytunwyd ar gyfer Grŵp Monitro Cytundeb y Gweithlu am y misoedd i ddod yn gysylltiedig â'r themâu craidd canlynol: Recriwtio, Datblygu, Proffesiynoldeb Newydd, Adleoli; Datblygiad Proffesiynol Parhaus a Thâl ac amodau, gan gynnwys safonau arweinyddiaeth a thâl a mwy o waith ar fynd i'r afael â llwyth gwaith ac oriau gwaith gormodol. Mae Grŵp Monitro Cytundeb y Gweithlu wedi bod yn datblygu blaenoriaethau gwaith a'u troi yn gynllun gwaith manwl.

Dylid nodi'r canlynol:

- Mae gennym ni agenda enfawr a heriol.
- Rhaid i'n cyflawniadau fod yn gynaliadwy.
- Rydym wedi ymrwymo i gyflenwi'r cytundebau a luniwyd
- Rhaid inni ddatblygu manylion yr agenda newydd.

Gellir canfod mwy o wybodaeth am Grŵp Monitro Cytundeb y Gweithlu yn http://www.socialpartnership.org

Nodiadau i'r Golygydd

Cefndir

Ar 15 Ionawr 2003 arwyddodd y Llywodraeth, cyflogwyr ac undebau gweithlu'r ysgolion Gytundeb Cenedlaethol hanesyddol sydd wedi codi safonau mewn ysgolion drwy fynd i'r afael â llwyth gwaith a rhyddhau Athrawon a Phenaethiaid i ganolbwyntio ar eu rolau craidd o addysgu ac arwain a rheoli addysgu a dysgu. Gyda'i gilydd maent yn cyfarfod i fonitro gweithredu'r Cytundeb Cenedlaethol.

Mae Grŵp Monitro Cytundeb y Gweithlu *yn bartneriaeth unigryw o sefydliadau sy'n cynrychioli cyflogwyr, y llywodraeth ac undebau gweithlu'r ysgolion...sy'n cynnwys*

- *Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL)*
- *Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL)*
- *GMB*
- *Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)*
- *Undeb yr athrawon NASUWT*
- *Sefydliad Cenedlaethol Cyflogwyr Athrawon Ysgol (NEOST)*
- *Unite*
- *UNISON*
- *VOICE*
- *Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, a*
- *Llywodraeth Cynulliad Cymru*

Mae'r bartneriaeth yn gweithio drwy gyfres o gyfarfodydd wythnosol. Cynhelir y rhain bob dydd Mercher ar hyn o bryd ac mae partneriaid yn rhannu eu cyfleusterau i gefnogi gwaith y bartneriaeth. Cynhelir y busnes i gyd ar sail gyfrinachol a breintiedig iawn ac mae partneriaid yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r cytundebau a luniwyd.

Cefnogir strwythur y bartneriaeth gan ddau is-grŵp 1) y Grŵp Dyfarniadau ac Ysgogiadau (RIG) sy'n canolbwyntio ar dâl ac amodau athrawon a phenaethiaid a 2) Grŵp y Staff Cymorth sy'n gwneud gwaith manwl ar faterion sy'n ymwneud â staff cymorth.

Mae'r datganiad i'r wasg hwn yn ymwneud â 'Chymru a Lloegr'.

Manylion Cyswllt
Ymholiadau Cyhoeddus 0870 000 2288, info@dcsf.gsi.gov.uk